

Ffyrdd organig

Math o blanhigyn sy'n gwrthsefyll—os ydych chi'n cael problem gyda phla neu glefyd mewn un planhigyn drwy'r adeg, gellwch geisio tyfu amrywiaeth sy'n **gwrthsefyll**. Er enghraifft mae letys 'Lakeland' yn gallu gwrthsefyll llwydni'r grawnwin (*powdery mildew*) a phryf glas y gwraidd (*root aphid*).

pH y pridd—mae newid pH y pridd yn gallu effeithio ar ba mor ddrwg neu niweidiol yw rhai clefydau. Er enghraifft, mae crach ar y tatws (*potato scab*) yn llai difrifol mewn pridd asid. Nid yw clwy'r gwraidd clap (*clubroot*) ar fresych cyn waethed pan mae'r pridd yn alcaliaidd.

Cylchdro—mae tyfu'r un math o lysiau yn yr un lle flwyddyn ar ôl blwyddyn yn gallu achosi i bla a chlefydau gryfhau yn y fan honno. Er mwyn osgoi hyn, dylech dyfu llysiau mewn darn gwahanol o'r ardd bob blwyddyn. Ni ddylai'r llysiau fynd yn ôl i'r darn cyntaf o dir am o leiaf tair blynedd.

Hau—gellwch osgoi llawer o broblemau gyda phla drwy hau'r planhigion ar yr adeg cywir. Er enghraifft, mae hau pys yn gynnar neu'n hwyr yn golygu eich bod yn osgoi cael y pys yn blodeuo yn ystod y cyfnod y mae'r pry pys yn dodwy wyau.

Torri'r cylch - os byddwch yn gadael gwastraff planhigyn sydd â chlefyd arno yn yr ardd, bydd y pla a'r clefydau yn gallu symud i blanhigion iach. Rhaid i chi symud holl weddillion planhigion sydd â chlefyd o'r ardd. Efallai y byddwch am roi'r deunydd yn y compost ond cofiwch fod rhai clefydau yn byw ar ôl eu troi'n gompost. Os nad ydych yn siwr yna rhwch y deunydd sydd â chlefyd yn y bin i'r lori ludw.

Palu yn ystod y gaeaf - mae rhai pla yn aros yn y pridd yn ystod y gaeaf. Gellwch leihau'r nifer ohonynt drwy droi'r tir yn y gaeaf a dod â'r pla i'r wyneb, lle byddant yn cael eu lladd gan yr oerni neu'n cael eu bwyta gan adar.

Rhwystrau—gellwch osod rhwystrau corfforol cyn i'r broblem godi. Beth am roi cynnig ar rai o'r rhain:

Rhwydi—gellwch rwystro pla sy'n hedfan drwy ddefnyddio rhwyd. Gwnewch yn siwr eich bod yn dewis rhwyd gyda thyllau'r maint cywir ar gyfer y pla yr ydych am ei gadw allan.

Clychau poteli (*cloches*)—defnyddiwch boteli plastig. Tynnwch eu caead a thorri'r gwaelod i ffwrdd a'u defnyddio fel gorchudd i gadw'r planhigion rhag gwllithod (*slugs*) a lindys.

Cnu (*fleece*)—gellwch dyfu moron dan gnu er mwyn eu hamddiffyn rhag y pry sy'n amharu ar wreiddiau'r moron (*carrot root fly*).

Coler—drwy osod darn 12cm sgwâr o garped rwber neu ddeunydd trwm arall o gwmpas bôn y bresych yn syth ar ôl eu plannu, gellwch eu hamddiffyn rhag y pry sy'n amharu ar fresych (*cabbage root fly*).

Trapiau—mae'n bosibl defnyddio trapiau isel wedi'u llenwi gyda chwrrw neu laeth i ddal gwllithod.

Pigo gyda llaw—tynnwch y pla a dail wedi'u heintio gyda'ch dwylo pan fyddwch yn eu gweld. Peidiwch byth â gadael i broblemau ymsefydlu ac ennill eu plwy.

Rheoli pla a chlefydau



Canllaw i fyfyrwyr ar sut i reoli pla a chlefydau yn yr ardd heb ddefnyddio cemegion



**Garden Organic
for Schools**

www.schoolsorganic.net



cyfieithwyd gan Ganolfan Organig Cymru
www.organic.aber.ac.uk/cymraeg

Sut i reoli pla a chlefydau yn eich gardd

Mae garddwyr organig yn cadw planhigion yn iach heb ddefnyddio cemegion. Mae'r dull organig o arddio yn ceisio atal y problemau rhag digwydd yn y lle cyntaf. Er hynny, mae llawer o ffyrdd organig o fynd ati i ddelio â phla a chlefydau mewn gardd organig.

Nid difa pob pla y mae garddwr organig am ei wneud, ond rheoli eu nifer fel nad ydyn nhw'n achosi gormod o ddifrod. Sut gellwch chi wneud hyn?

Cydweithio â natur

O'i gadael i fod, gall natur ddod o hyd i'w chymbwysedd ei hun.

Mae'n sicrhau bod pla a chlefydau o dan reolaeth. Os ydych am greu gardd lwyddiannus rhaid i chi geisio cael y cydbwysedd hwn yn eich gardd. Y pethau pwysicaf yw lloches a bwyd ar gyfer ysglyfaethwyr.




Creu'r cydbwysedd

Denu ysglyfaethwyr



Mae pwll bychan yn gallu bod yn gartref i lyffantod, brogaod a chreaduriaid eraill sy'n bwyta pla.

Mae planhigion, llwyni a choed brodorol, yn enwedig y math sydd â dail llydain, yn cynnal mwy o amrywiaeth o greaduriaid na phlanhigion o dramor. Er enghraifft, gall ffenigl (*fennel*) gynnal llawer o fathau gwahanol o bryfed ac adar.



Gellwch annog adar, sy'n bwyta pob math o bla, i ddod i'ch gardd drwy roi lle iddynt nythu a phlannu planhigion iddynt fwyta.




Mae creaduriaid gwyllt angen llefydd i guddio ynddynt.

Codwch guddfannau iddynt, megis pentwr o gerrig neu ddarnau o bren.

Pridd iach

Pridd yw'r rhan bwysicaf o'r ardd organig. Gellwch wella pridd drwy ddefnyddio compost gardd a thail neu dom wedi pydru. Mae'r rhain yn bwydo'r micro-organebau yn y pridd. Bydd strwythur y pridd a'i ffrwythlondeb hefyd yn gwella.



Bydd pridd sydd wedi'i fwydo'n dda yn rhoi cyflenwad da o fwyd cytbwys i'r phlanhigion, gan eu gwneud yn gryfach i wrthsefyll pla a chlefydau.

Dechrau da, dechrau iach

Gwnewch yn siwr bod y planhigion yr ydych yn eu prynu neu yn eu tyfu o hadau yn iawn ar gyfer eich gardd o ran y tywydd a'r pridd. Ni fydd planhigion sydd yn y lle anghywir yn tyfu'n dda iawn.

Cyn prynu planhigion, neu os cewch nhw'n anrheg, gwnewch yn siwr nad oes pla neu glefyd arnyn nhw'n barod.

Gwybod beth yw eich problem

Os nad yw planhigion yn iach iawn, mae'n bwysig darganfod beth sydd o'i le er mwyn ceisio'i wella. Bydd llyfr am bla a chlefydau yn gallu eich helpu i gael ateb i'r broblem. Bydd y llyfr hefyd yn eich helpu i benderfynu a yw'r broblem yn un ddifrifol ac angen sylw ai peidio.

Geirfa

Brodorol - yn tyfu'n naturiol yn y wlad hon

Clefyd - afiechyd, haint (*disease*)

Gwrthsefyll - osgoi ymosodiadau gan bla a chlefydau (*resistant*)

pH - a yw'r pridd yn asid neu'n alcaliaidd

Pla - nifer o greaduriaid sy'n gwneud drwg (*pests*)

Ysglyfaethwyr - creaduriaid sy'n bwyta pla yn yr ardd (*predators*).